DESIGN
COMMISSION
FOR WALES
COMISIWN
DYLUNIO
CYMRU

**Cynllun Peilot Partneriaeth Tai Fforddiadwy Comisiwn Dylunio Cymru**

*Trosolwg o'r Cynllun Peilot*

Gorffennaf 2026

**Cyflwyniad**

Mae Comisiwn Dylunio Cymru yn gwahodd datganiadau o ddiddordeb gan ddarparwyr tai fforddiadwy sydd â diddordeb mewn cymryd rhan mewn rhaglen beilot i gefnogi ansawdd dylunio drwy gydol y broses ddatblygu, gan ganolbwyntio'n benodol ar gamau cynnar datblygu prosiectau, gyda'r nod o gynhyrchu enghreifftiau delfrydol ar gyfer y dyfodol.

Drwy ein gwaith gyda phrosiectau tai fforddiadwy ledled Cymru, rydym wedi sylwi bod llawer o'r penderfyniadau sy'n cael y dylanwad mwyaf ar ansawdd cartrefi newydd yn cael eu gwneud cyn bod tîm dylunio yn cael ei benodi a chyn i brosiectau ymgysylltu ag Adolygu Dyluniad. Gall penderfyniadau sy'n ymwneud ag amcanion prosiectau, dadansoddi safle, potensial o ran datblygu, briffio, caffael a phenodi'r tîm dylunio cywir i gyd gael effaith sylweddol ar ansawdd dylunio, canlyniadau creu lleoedd, cynaliadwyedd a gwerth hirdymor.

Er y gall Adolygu Dyluniad chwarae rhan bwysig yn y gwaith o gefnogi ansawdd dylunio, rydym yn lansio'r rhaglen beilot hon i ddarparu cymorth ychwanegol yn ystod camau cynharach datblygu prosiectau, pan fydd penderfyniadau allweddol yn cael eu gwneud a phan fydd y gallu i ddylanwadu ar ganlyniadau ar ei fwyaf. Drwy helpu timau prosiect i ddeall safleoedd a'u cyd-destun, edrych ar y potensial o ran datblygu, sefydlu gweledigaeth glir a datblygu egwyddorion dylunio, gall cymorth dylunio cynnar helpu i greu sylfeini cryfach ar gyfer prosiectau llwyddiannus.

Bydd y cynllun peilot hwn yn edrych ar sut gall cyfuniad o gymorth dylunio yn ystod y camau cynnar ac Adolygu Dyluniad parhaus gyfrannu at wneud penderfyniadau gwybodus drwy gydol datblygiad y prosiect. Drwy weithdai cydweithredol, trafodaethau wedi'u harwain gan ddylunio, cyngor ar gaffael a briffio, ac Adolygu Dyluniad, bydd y rhaglen yn

helpu darparwyr tai fforddiadwy i ddarparu tai cynaliadwy a fforddiadwy o ansawdd uchel sy'n ymateb yn gadarnhaol i'w cyd-destun, yn manteisio i'r eithaf ar botensial safleoedd ac yn creu lleoedd llwyddiannus lle mae pobl eisiau byw.

**Gair am Gomisiwn Dylunio Cymru**

Comisiwn Dylunio Cymru yw'r corff cynghori cenedlaethol ar gyfer ansawdd dylunio yn yr amgylchedd adeiledig yng Nghymru. Wedi'i sefydlu a'i ariannu gan Lywodraeth Cymru, rydym yn cefnogi canlyniadau gwell drwy gyngor dylunio annibynnol, hyfforddiant a meithrin gallu.

Rydym yn darparu'r Gwasanaeth Adolygu Dyluniadau cenedlaethol ar gyfer Cymru, gan weithio gyda datblygwyr, timau dylunio ac awdurdodau cynllunio i gefnogi datblygiad o ansawdd uchel. Drwy'r gwaith hwn, rydym wedi datblygu profiad helaeth o'r cyfleoedd a'r heriau sy'n gysylltiedig â chyflawni prosiectau tai llwyddiannus ledled Cymru.

Mae'r cynllun peilot hwn yn gyfle i adeiladu ar y profiad hwnnw drwy weithio gyda darparwyr tai fforddiadwy yn gynharach yn y broses ddatblygu, gan helpu i sefydlu sylfeini cadarn cyn gwneud penderfyniadau allweddol a chyn i dimau dylunio cael eu penodi.

**Nod**

Gweithio mewn partneriaeth â dau ddarparwr tai fforddiadwy i ddangos sut gall cymorth dylunio yn ystod y camau cynnar, ynghyd ag Adolygu Dyluniad parhaus, gyfrannu at wneud penderfyniadau mwy gwybodus, briffiau prosiect cryfach a datblygiadau tai o ansawdd uchel, gan greu prosiectau sy'n gallu dangos gwerth dull gweithredu sy'n cael ei arwain gan ddylunio a darparu dysgu ac ysbrydoliaeth i'r sector ehangach.

**Pwy Ddylai Wneud Cais?**

Rydym yn chwilio am ddatganiadau o ddiddordeb gan ddarparwyr tai fforddiadwy:

- Sy'n datblygu neu'n cynllunio prosiectau tai fforddiadwy newydd yng Nghymru.
- Sydd â diddordeb mewn edrych ar sut y gall dylunio ychwanegu gwerth yn ystod camau cynharaf datblygu prosiect.
- Sy'n barod i ymgysylltu'n agored mewn proses ddysgu gydweithredol.
- Sy'n gallu nodi un neu fwy o brosiectau addas yn gynnar yn eu datblygiad.
- Sydd wedi ymrwymo i gymryd rhan drwy gydol y rhaglen beilot.

Rhaid i brosiectau fod yng nghamau cynnar eu datblygiad, cyn bod tîm dylunio yn cael ei benodi. Mae hyn yn hanfodol er mwyn galluogi'r cynllun peilot i ddylanwadu ar y prosiect

o ran weledigaeth, egwyddorion dylunio, briffio, proses gaffael a'r datblygiad dilynol o'r dyluniad.

Bydd disgwyl i'r sefydliadau sy'n cymryd rhan ymgysylltu drwy gydol y rhaglen, gan gynnwys mynychu gweithdai a sesiynau Adolygu Dyluniadau, rhannu gwybodaeth berthnasol am y prosiect a chyfrannu at ddysgu a gwerthuso'r cynllun peilot.

**Manteision Cymryd Rhan**

Bydd sefydliadau sy'n cymryd rhan yn cael cymorth wedi'i deilwra gan Gomisiwn Dylunio Cymru drwy gydol y prosiect. Bydd hyn yn helpu i gryfhau'r broses o wneud penderfyniadau a gwreiddio ansawdd dylunio o gychwyniad y prosiect hyd at ddatblygu'r dyluniad. Nod y cynllun peilot yw cefnogi sefydliadau sy'n cymryd rhan drwy:

- Datblygu gweledigaeth glir ac amcanion dylunio o'r cychwyn cyntaf.
- Datgloi potensial y safle o ran datblygu.
- Cryfhau briffiau prosiect a phrosesau caffael.
- Cefnogi'r gwaith o benodi'r tîm dylunio cywir.
- Gwreiddio ystyriaethau ansawdd dylunio yn gynnar a thrwy gydol y gwaith o ddatblygu prosiectau.
- Mynd i'r afael â materion allweddol a gofynion rhanddeiliaid mewn ffordd ragweithiol a chyfannol.
- Gwneud y defnydd gorau o Adolygu Dyluniad fel rhan o'r broses ddylunio.
- Cefnogi'r broses o wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth ar gerrig milltir allweddol y prosiect.
- Rhannu dysgu ac arferion da ar draws y sector tai fforddiadwy.

**Dewis Prosiectau**

Bydd dau ddarparwr tai fforddiadwy yn cael eu dewis i gymryd rhan yn y cynllun peilot. Bydd prosiectau'n cael eu hasesu yn erbyn y meini prawf canlynol:

- Y cyfle i'r cynllun peilot ddylanwadu ar benderfyniadau allweddol cyn i dîm dylunio cael ei benodi.
- Ymrwymiad y sefydliad sy'n cymryd rhan i ymgysylltu drwy gydol y rhaglen.
- Potensial y cynllun peilot i ychwanegu gwerth ac i gynhyrchu dysgu ar gyfer y sector ehangach.
- Addasrwydd, lleoliad a photensial y safle.
- Y potensial i ddangos sut y gall dulliau a arweinir gan ddylunio datgloi cyfleoedd a chreu lleoedd o ansawdd uchel.

Nod y cynllun peilot yw edrych ar sut gall dulliau sy'n cael eu harwain gan ddylunio manteisio i'r eithaf ar botensial safleoedd mewn aneddiadau presennol a lleoliadau cynaliadwy eraill sydd â mynediad da at wasanaethau, cyfleusterau a thrafnidiaeth gyhoeddus leol. Mae'r lleoliadau hyn yn aml yn darparu cyfleoedd i gefnogi cymunedau presennol, defnyddio seilwaith yn effeithlon a chreu lleoedd sy'n annog cerdded, beicio a'r defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus. O'r herwydd, mae'n annhebygol y bydd safleoedd maes glas sydd ar gyrion aneddiadau ac sydd â chysylltiadau gwael yn cael eu dewis.

**Sut bydd y Bartneriaeth yn Gweithio**

Bydd sefydliadau sy'n cymryd rhan yn cael y cyfle i weithio gyda Chomisiwn Dylunio Cymru ar gamau allweddol yn natblygiad y prosiect, o ddichonoldeb cynnar hyd at gynigion dylunio sy'n dod i'r amlwg. Cyflwynir y bartneriaeth drwy dri cham.

<u>Cam 1 - Cychwyniad</u>

Bydd y cynllun peilot yn dechrau gyda cham cychwynnol er mwyn sefydlu cyd-ddealltwriaeth o uchelgeisiau sefydliadol, blaenoriaethau datblygu a phrosiectau posibl.

Bydd y cyfnod hwn yn cynnwys:

- Cyfarfod rhagarweiniol gyda'r sefydliadau sy'n cymryd rhan.
- Trafodaeth o uchelgeisiau ac amcanion datblygu.
- Adolygiad o'r prosiect(au) arfaethedig.
- Dewis prosiect ar gyfer y peilot.
- Cytundeb ar gwmpas, rolau a disgwyliadau'r prosiect.

Y nod yw sicrhau bod y prosiect yn addas ac i sefydlu cyd-ddealltwriaeth o sut y gall y cynllun peilot gefnogi datblygiad y prosiect cyn i dîm dylunio cael ei benodi.

<u>Cam 2 - Sylfeini'r Prosiect</u>

Agwedd allweddol ar y cynllun peilot fydd cefnogi prosiectau cyn i dîm dylunio cael ei benodi, pan fydd llawer o'r penderfyniadau sy'n siapio canlyniadau'r prosiect yn cael eu gwneud.

Bwriad y cam Sylfeini'r Prosiect yw sefydlu gweledigaeth glir ar gyfer y prosiect a sicrhau bod hyn yn cael ei adlewyrchu ym mriff y prosiect, y broses gaffael a'r datblygiad dilynol o'r dyluniad.

A) Gweithdy Dylunio a Dadansoddi Safleoedd

Gan weithio gyda thimau datblygu a rhanddeiliaid allweddol, bydd Comisiwn Dylunio Cymru yn cefnogi'r gwaith o ddadansoddi safleoedd a chyd-destunau ac yn hwyluso gweithdy cydweithredol i edrych ar amcanion y prosiect ynghyd â chyfleoedd, cyfyngiadau, potensial o ran datblygu ac uchelgeisiau creu lleoedd.

Bydd y cam hwn yn cynnwys:

- Dadansoddiad o'r safle a'r cyd-destun.
- Ymgysylltu â rhanddeiliaid perthnasol.
- Gweithdy dan arweiniad dylunio.
- Edrych ar gyfleoedd, cyfyngiadau a photensial o ran datblygu.
- Datblygu gweledigaeth safle ac egwyddorion dylunio.

B) Datblygu Briff

Yn dilyn y gweithdy, bydd Comisiwn Dylunio Cymru yn darparu cyngor ysgrifenedig i helpu i drosi'r canlyniadau'n friff prosiect clir. Bydd Comisiwn Dylunio Cymru hefyd yn rhoi adborth ar friffiau drafft, gan helpu sefydliadau sy'n cymryd rhan i sicrhau bod amcanion y prosiect, dyheadau o ran ansawdd, gweledigaeth y safle ac egwyddorion dylunio yn cael eu hadlewyrchu'n glir cyn caffael y tîm dylunio.

Bydd hyn yn cynnwys:

- Crynodeb ysgrifenedig o'r prif ganfyddiadau.
- Gweledigaeth ar gyfer y safle.
- Egwyddorion dylunio sy'n benodol i safle.
- Diagramau syml lle bo hynny'n briodol.
- Argymhellion i lywio briff y prosiect a datblygiad y dyluniad yn y dyfodol.
- Adolygu a rhoi sylwadau ar friffiau prosiect drafft.

Y nod yw sicrhau bod y weledigaeth, y cyfleoedd a'r egwyddorion dylunio a nodir drwy'r gweithdy yn cael eu gwreiddio ym mriff y prosiect a'u bod yn gallu llywio penderfyniadau, caffael a datblygiad y dyluniad yn y dyfodol.

C) Cymorth o ran Caffael

Bydd Comisiwn Dylunio Cymru hefyd yn cynnig cefnogaeth gyda'r broses gaffael i'r sefydliadau sy'n cymryd rhan, gan gydnabod pwysigrwydd penodi'r tîm dylunio cywir.

Bydd hyn yn cynnwys:

- Cyngor ar ddulliau caffael.

- Cyfrannu at feini prawf dewis ymgynghorwyr.
- Adolygu dogfennau tendr.
- Cymryd rhan yn y cyfweliadau ag ymgynghorwyr.

Rhoddir pwyslais arbennig ar sicrhau bod prosesau caffael yn cefnogi'r penodiad o dimau dylunio sy'n gallu ymateb yn gadarnhaol i weledigaeth, egwyddorion dylunio ac uchelgeisiau'r prosiect.

Drwy fynd i'r afael â materion allweddol yn gynnar, sefydlu gweledigaeth glir a chefnogi penodi'r tîm dylunio cywir, nod y rhaglen yw helpu timau prosiect i wneud penderfyniadau gwybodus, datgloi potensial llawn y safle, lleihau'r risg o ail-ddylunio y gellir ei osgoi a chreu'r amodau ar gyfer canlyniadau dylunio llwyddiannus.

<u>Cam 3 – Adolygu Dyluniad</u>
Ar ôl penodi'r tîm dylunio, bydd Comisiwn Dylunio Cymru yn parhau i gefnogi prosiectau sy'n cymryd rhan drwy Adolygu Dyluniad ac ymgysylltu parhaus wrth i gynigion ddatblygu. Bydd Adolygu Dyluniad yn gyfle i brofi cynigion sy'n dod i'r amlwg yn erbyn y weledigaeth, yr egwyddorion dylunio ac amcanion y prosiect a sefydlwyd drwy gam Sylfeini'r Prosiect. Bydd hyn yn cynnwys:

A) Adolygu Dyluniad 1 – Datblygiad Cynnar o'r Dyluniad

- Yn dilyn penodi'r tîm dylunio.
- Profi gweledigaeth y prosiect, strategaeth y safle, egwyddorion creu lleoedd a chysyniadau dylunio sy'n dod i'r amlwg.
- Adolygu sut mae'r tîm dylunio wedi ymateb i'r cyfleoedd a'r blaenoriaethau a nodwyd drwy gam Sylfeini'r Prosiect.

B) Adolygu Dyluniad 2 - Dyluniad wedi'i Ddatblygu

- Adolygu sut mae'r weledigaeth a'r egwyddorion dylunio wedi cael eu trosi i'r cynllun sy'n esblygu.
- Nodi cyfleoedd i fireinio cyn cyflwyno'r cais cynllunio.
- Cefnogi ffocws parhaus ar ansawdd dylunio wrth i'r prosiect symud tuag at gyflawni.

Bydd y dull hwn yn helpu i gynnal parhad rhwng cam Sylfeini'r Prosiect a'r datblygiad dilynol o'r dyluniad, gan sicrhau bod egwyddorion allweddol a sefydlwyd yn gynnar yn y broses yn parhau i lywio'r broses o wneud penderfyniadau wrth i gynigion esblygu.

**Cydweithio ac Ymgysylltu Cynnar**

Un o brif fanteision y cynllun peilot yw'r cyfle i ddod â sefydliadau a rhanddeiliaid perthnasol at ei gilydd yn gynnar yn natblygiad y prosiect, pan fydd y cyfleoedd mwyaf i ddylanwadu ar ganlyniadau.

Yn dibynnu ar y prosiect, gall hyn gynnwys ymgysylltu ag awdurdodau cynllunio a phriffyrdd lleol, cydweithwyr yn Llywodraeth Cymru, Swyddogion Dylunio, a rhanddeiliaid perthnasol eraill.

Drwy sefydlu cyd-ddealltwriaeth o gyfleoedd, cyfyngiadau, gweledigaeth ac egwyddorion dylunio'r safle, nod y cynllun peilot yw cefnogi dull cydlynol a rhagweithiol o ddatblygu prosiectau. Gall hyn helpu i nodi a mynd i'r afael ag ystyriaethau allweddol yn gynnar, lleihau'r risg o ail-ddylunio y gellir ei osgoi a chefnogi'r gwaith o ddarparu datblygiadau tai o ansawdd uchel.

Bydd y cynllun peilot hefyd yn cael ei ddatblygu mewn deialog â chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y tîm Safonau Tai sy'n gyfrifol am gyllid Grant Tai Fforddiadwy, gan helpu i gysoni dyheadau'r prosiect ag amcanion ehangach o ran ansawdd a chreu lleoedd.

**Ymrwymiad y Rhai Hynny Sy'n Cymryd Rhan**

Mae'n rhad ac am ddim i gymryd rhan yn y cynllun peilot. Bydd Comisiwn Dylunio Cymru yn darparu gweithdai, cyngor ac Adolygu Dyluniad drwy adnoddau presennol. Yn gyfnewid am hynny, bydd disgwyl i'r sefydliadau sy'n cymryd rhan wneud y canlynol:

- Neilltuo amser staff priodol drwy gydol y cynllun peilot.
- Bod yn bresennol mewn cyfarfodydd, gweithdai a sesiynau Adolygu Dyluniad.
- Rhannu gwybodaeth berthnasol am y prosiect a chynigion sy'n dod i'r amlwg.
- Cynnwys Comisiwn Dylunio Cymru mewn trafodaethau ynghylch briffio prosiectau a chaffael.
- Dod â phrosiectau i'r Adolygu Dyluniad ar y camau y cytunwyd arnynt.
- Rhannu'r hyn a ddysgwyd ac adborth i gefnogi'r gwaith o werthuso'r cynllun peilot.
- Cefnogi'r gwaith o ledaenu'r hyn a ddysgwyd yn ehangach lle bo hynny'n briodol.

Bydd disgwyl i'r sefydliadau sy'n cymryd rhan hefyd ddarparu lleoliad addas ar gyfer gweithdai (neu ddod i weithdai yn swyddfeydd Comisiwn Dylunio Cymru) a thalu unrhyw gostau arlwyo cysylltiedig.

**Allbynnau**

Disgwylir i'r rhaglen gynhyrchu:

- Gweledigaeth, egwyddorion dylunio ac argymhellion sy'n benodol i'r safle.
- Cyngor i lywio briff y prosiect a chaffael.
- Adroddiadau Adolygu Dyluniad i lywio'r gwaith o ddatblygu dyluniadau.
- Astudiaeth achos prosiect sy'n cofnodi'r daith ddatblygu o'r cychwyniad hyd at ddatblygu'r dyluniad a, lle bo hynny'n ymarferol, hyd at gyflawni a meddiannu.
- Gwersi a ddysgwyd ac argymhellion y gellir eu rhannu'n ehangach ar draws y sector.

**Amserlen y Rhaglen**

| Gweithgaredd | Amser |
|---|---|
| Datganiad o Ddiddordeb yn Agor | 1 Gorffennaf 2026 |
| Datganiad o Ddiddordeb yn Cau | 7 Awst 2026 |
| Dewis Y Rhai Bydd yn Cymryd Rhan yn y Cynllun Peilot | Awst 2026 |
| Cyfarfod Cychwynnol | Medi 2026 |
| Cam Sylfeini'r Prosiect | Hydref 2026 - Gwanwyn 2027 |
| Adolygu Dyluniad | Drwy gydol 2027 |
| Dysgu a Gwerthuso | 2028 |

Mae'r amseroedd yn ddangosol ar hyn o bryd a byddant yn cael eu mireinio gyda sefydliadau sy'n cymryd rhan i adlewyrchu anghenion a rhaglen prosiectau unigol.

**Datganiadau o Ddiddordeb**

Rhaid i Ddatganiadau o Ddiddordeb cael eu cyflwyno erbyn **7 Awst 2026**. Ar ôl asesu'r cyflwyniadau, bydd dau ddarparwr tai fforddiadwy yn cael eu dewis i gymryd rhan yn y cynllun peilot, gyda chyfarfodydd cychwynnol yn cael eu cynnal ym mis Medi 2026.

Mae rhagor o wybodaeth am y broses Datganiad o Ddiddordeb, gan gynnwys yr wybodaeth sydd ei hangen a'r meini prawf dethol, ar gael yn y ffurflen gais.

Os hoffech drafod y cynllun peilot cyn cyflwyno Datganiad o Ddiddordeb, cysylltwch â Chomisiwn Dylunio Cymru yn connect@dcfw.org. Byddem yn hapus i drafod y rhaglen ac addasrwydd prosiectau posibl.